EDUCATION FOR SUSTAINABLE DEVELOPMENT AND GLOBAL CITIZENSHIP (ESDGC)

.....Starting Points .....for Secondary Schools

Displays... Think about what kind of world is being depicted.

- Is it mainly white, middle class, able-bodied and western? Do the images challenge or reinforce stereotypes? Do they reflect our cultural and social diversity? Ensure displays include a variety of images and reflect a more complete picture of the diversity of people and places, e.g. urban/rural, rich/poor, traditional/ contemporary, wasteful/sustainable.
- Are our students aware of what is going on within the school and the wider school community? Do the students know who is responsible for what and what decisions are being made? Use a bulletin board or display area to highlight what ESDGC actions are taking place or are being planned.

Language... Think about the words used when discussing people and places.

- Do we explain, define or clarify the words that we use such as 'sustainability', 'sustainable development', 'global citizenship'?
- Do we ever use terms that reinforce stereotypes? eg 'tribes', 'primitive', 'underdeveloped', 'third world', 'uncivilized', By talking about 'other people' we are reinforcing the idea that 'they' are not 'us'.
- Do we make the most of opportunities to benefit from bilingualism and other languages?

Curriculum content...ESDGC is not a new or separate subject. Try to incorporate it into what is already being taught.

- Do we consider ways of bringing ESDGC to our own subject areas when we are planning?
- Do we make links with ESDGC in other curriculum areas and/or link with other departments?
- Do we make links to Curriculum Cymreig and make ESDGC relevant to pupils' everyday lives in Wales?
- Do classroom activities ecourage children to question why our world is as it is and what can be done to change or influence it?

Links... We all have links with people and places beyond the school and Wales. Encourage students to recognize the links and their importance.

- Are our students aware of their choices as consumers? Do they know where our food is grown and how fuels and energy are created? Do they know where their clothes, computers, mobile phones and household goods have come from, how they are made and the impact on the environment?
- What links (past and present) does our school and its wider community already have with other places and countries? How can those links be further developed?
- Do we draw on help and support from parents, colleagues and other organisations?

Action... What else can we do as a school community?

- Promote opportunities for social inclusion such as buddy schemes, peer mentoring, school councils and committees.
- Ensure the school council or committee is fully inclusive, includes representatives from every year group and that the students make the decisions.
- Recycle, reuse and share our classroom resources.
- Offer fair trade tea and coffee in the staff room and at events; promote healthy lifestyles – consider having vending machines that stock healthy options.
- Ensure there is a designated person for ESDGC within our school.
- Evaluate what we as a school are currently doing to: reduce energy, waste, water use and transport; maintain and encourage biodiversity; promote cultural diversity, democratic processes, critical thinking skills and global links.
- Decide on the priorities for change and make an action plan.

DFID Department for International Development

cyfanfyd

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

www.esdgc-wales.org.uk www.cyfanfyd.org.uk

Working together to Enable Effective Support for ESDGC in Wales

EDUCATION FOR SUSTAINABLE DEVELOPMENT AND GLOBAL CITIZENSHIP (ESDGC)

.....Starting Points

.....i Ysgolion Uwchradd

Arddangosfeydd... Meddyliwch pa fath o fyd sy'n cael ei ddarlunio.

- Ai byd y bobl wyn ydyw, sy'n perthyn i'r dosbarth canol, yn abl ac o'r gorllewin? A yw'r delweddau'n herio ynteu'n atgyfnerthu stereoteipiau? A ydynt yn adlewyrchu ein hamrywiaeth diwylliannol a chymdeithasol? Sicrhewch fod arddangosfeydd yn cynnwys amrywiaeth o ddelweddau ac yn adlewyrchu darlun mwy cyflawn o'r amrywiaeth o bobl a lleoedd, e.e. trefol/gwledig, cyfoethog/tlawd, traddodiadol/cyfoes, gwastraffus/cynaliadwy.
- A yw ein myfyrwyr yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd o fewn yr ysgol a chymuned ehangach yr ysgol? A yw'r myfyrwyr yn gwybod pwy sy'n gyfrifol am beth a pha benderfyniadau sy'n cael eu gwneud? Defnyddiwch hysbysfwrdd neu fan arddangos i ddangos pa gamau gweithredu ADCDF sy'n cael eu cymryd neu eu cynllunio.

Iaith... Meddyliwch am y geiriau a ddefnyddir wrth drafod pobl a lleoedd.

- A ydym yn esbonio, yn diffinio neu'n egluro'r geiriau a ddefnyddir gennym megis 'cynaliadwyedd', 'datblygu cynaliadwy', 'dinasyddiaeth fyd-eang'?
- A fyddwn byth yn defnyddio termau sy'n atgyfnerthu stereoteipiau? e.e. 'llwythi', 'cyntefig', 'tanddatblygedig', 'y trydydd byd', 'anwaraidd'. Wrth sôn am 'bobl eraill' rydym yn atgyfnerthu'r syniad nad ydynt 'hwy' fel 'ni'.
- A ydym yn gwneud y gorau o gyfleoedd i elwa o ddwyieithrwydd ac ieithoedd eraill?

Cynnwys y cwricwlwm...Nid pwnc newydd neu bwnc ar wahân yw ADCDF. Ceisiwch ei gynnwys yn yr hyn sydd eisoes yn cael ei addysgu.

- A ydym yn ystyried ffyrdd o gynnwys ADCDF yn ein pynciau ein hunain wrth gynllunio?
- A ydym yn gwneud cysylltiadau ag ADCDF mewn meysydd cwricwlwm eraill a/neu'n gyswllt ag adrannau eraill?
- A ydym yn gwneud cysylltiadau â'r Cwricwlwm Cymreig ac yn gwneud ADCDF yn berthnasol i fywyd pob dydd myfyrwyr yng Nghymru?
- A yw gweithgareddau yn y dosbarth yn annog plant i ofyn pam fod ein byd fel ag y mae a beth ellir ei wneud i'w newid neu ddylanwadu arno?

Cysylltiadau... Mae gennym oll gysylltiadau â phobl a lleoedd y tu hwnt i'r ysgol a Chymru. Ewch ati i annog myfyrwyr i gydnabod y cysylltiadau a'u pwysigrwydd.

- A yw ein myfyrwyr yn ymwybodol o'u dewisiadau fel defnyddwyr? A ydynt yn gwybod ble y caiff ein bwyd ei dyfu a sut y caiff tanwyddau ac ynni'u creu? A ydynt yn gwybod o ble mae eu dillad, cyfrifiaduron, ffonau symudol a nwyddau cartref wedi dod, sut y cânt eu gwneud a'r effaith ar yr amgylchedd?
- Pa gysylltiadau (yn y gorffennol a'r presennol) sydd gan eich ysgol a'i chymuned ehangach â lleoedd a gwledydd eraill? Sut y gellir datblygu'r cysylltiadau hynny ymhellach?
- A ydym yn cael cymorth a chefnogaeth gan rieni, cydweithwyr a chyrff eraill?

Gweithredu... Beth arall allwn ni ei wneud fel cymuned ysgol?

- Hybu cyfleoedd ar gyfer cynhwysiant cymdeithasol megis cynlluniau bydis, mentora gan gyfoedion, cynghorau a phwyllgorau ysgol.
- Sicrhau bod y cyngor ysgol neu'r pwyllgor ysgol yn gwbl gynhwysol, yn cynnwys cynrychiolwyr o bob gr_p blwyddyn ac mai'r myfyrwyr sy'n gwneud y penderfyniadau.
- Ailgylchu, ailddefnyddio a rhannu ein hadnoddau dosbarth.
- Cynnig te a choffi wedi'u masnachu'n deg yn yr ystafell athrawon ac mewn digwyddiadau; hybu ffyrdd iach o fyw – ystyried cael peiriannau gwerthu sy'n rhoi dewis iach.
- Sicrhau bod person enwebedig yn gyfrifol am ADCDF yn ein hysgol.
- Arfarnu'r hyn yr ydym ni fel ysgol yn ei wneud ar hyn o bryd i: gwtogi ar ynni, gwastraff, y defnydd o dd_r a chludiant; cynnal a hybu bioamrywiaeth; hyrwyddo amrywiaeth diwylliannol, prosesau democrataidd, sgiliau meddwl yn gritigol a chysylltiadau byd-eang.
- Penderfynu ar y blaenoriaethau ar gyfer newid a llunio cynllun gweithredu.

DFID Department for International Development

cyfanfyd

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

www.esdgc-wales.org.uk www.cyfanfyd.org.uk

Working together to Enable Effective Support for ESDGC in Wales